# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Mawrth 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Radio yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 3: Prifysgol De Cymru

(09:30 - 10:30) (Tudalennau 1 - 22)

Steve Johnson, Uwch Ddarlithydd, Ysgol y Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd, Prifysgol De Cymru

### 2.1 Radio yng Nghymru: Pecyn ymgynghori

(Tudalennau 23 - 103)

## 3 Radio yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 4: BBC

(10:30 - 11:30) (Tudalennau 104 - 118)

Betsan Powys, Golygydd BBC Radio Cymru a Cymru Fyw

Colin Paterson, Golygydd BBC Radio Wales

Rhys Evans, Pennaeth Strategaeth ac Addysg

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Radio yng Nghymru: tystiolaeth ychwanegol gan Bwyllgor Cynghori Ofcom

(Tudalennau 119 - 120)

### 4.2 Ofcom: tystiolaeth ychwanegol am gwotâu newyddion a materion cyfoes BBC Radio Wales

(Tudalen 121)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

4.3 Llyfrgell Genedlaethol Cymru: gwybodaeth ychwanegol

(Tudalennau 122 - 128)

4.4 Gohebiaeth gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

(Tudalennau 129 - 130)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 6 Ystyried y dystiolaeth

(11:30 - 12:00)

## 7 Ariannu addysg cerddoriaeth a mynediad ati: trafod yr adroddiad drafft

(12:00 - 12:30) (Tudalennau 131 - 167)

## 8 Llythyr gan y Llywydd mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

(Tudalennau 168 - 173)

## Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau: Lansio adroddiad yn Hijinx (13:30 - 14:30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

In 2016, in an article published in the 3CMedia journal, Australia, I set out to provide a snapshot of community radio in Wales, approximately ten years into its existence, highlighting issues particularly pertaining to the sector in Wales. I used the article to outline a number of localised factors that specifically affect the Welsh community radio sector and continue to be of relevance at the time of writing. I alluded to the lack of space on the FM spectrum, a limited number of stations servicing mid-Wales, transmission difficulties caused by the mountainous terrain of Wales and the absence of devolved legislative powers for broadcasting (Ibid). The comparative weakness of indigenous media provision in Wales was also noted, as cited previously, Williams (2008) and Talfan - Davies and Morris (2008). The previous provision (2008 to 2013) of a community Welsh Government community radio fund to the Welsh stations was also mentioned. This very welcome, additional funding stream had ceased with no indications of the funding stream being continued or renewed. I would strong advocate that such a funding stream is re-introduced and suggest that would be money that is wisely spent, enabling overt and meaningful outcomes in Wales. Community radio operates from a progressive 'ground-up' perspective, enabling participation, widening levels of media plurality and endeavouring to give a platform to marginalised, often unheard voices. I would argue strongly here that support for the Welsh community radio sector is absolutely worthwhile, facilitating community engagement and media participation in areas, less well- served by indigenous media outlets and, perhaps, most importantly, giving the disparate communities of Wales, a voice.

The impact of financial austerity has affected Wales as much as other parts of the UK. Indeed, Wales was identified as having 'the lowest employment rate of countries in Britain for all age groups, both sexes, and disabled and non-disabled people' (Equality and Human Rights Commission. How fair is Wales? 2011). I used the journal article to recount the demise of Radio Beca, suggesting that it epitomised the battle to attain sustainable social gain delivery in the Welsh community radio sector. For those unaware of the story, it had been agreed by Ofcom that Radio Beca would be given a much wider broadcast range than the standard five-kilometre radius, in order for it to serve pockets of the Welsh-speaking community across a range of small towns, villages and hamlets in

Carmarthenshire, north Pembrokeshire and Ceredigion, west Wales.  This was a welcome and imaginative initiative on the part of Ofcom. However, in reality, that would not, in itself, have been enough to keep Radio Beca on-air, as restrictions on commercial income generation have a disproportionate and highly restrictive impact on community radio stations based, like Radio Beca, in rural, less affluent parts of Wales.

The outcome of the March 2011 referendum famously resulted in an increase in autonomous powers for Wales.  However, broadcasting legislation remained in the hands of the Department of Culture Media and Sport (DCMS) with the media in Wales dependent on support from Westminster based MP's for any proposed changes.  Williams (2008) puts forward a strong argument to devolve such powers to Wales.  His argument is that such a move would generate more accountability for broadcasters to the Welsh public, help build a sense of national community, provide more balance between English and Welsh medium content and create a stronger position for Wales in the future digital media market place (Williams, 2008: 110).  That point of view continues to resonate, for without such devolution of legislative powers, it is difficult to envisage the Welsh media industry making significant progress in the short to medium term.

Notably, the community radio stations of Wales have the potential to play an integral role in redressing the imbalance in the Welsh media market place, as independent broadcasters within their specific communities.  It is suggested here that limitations within the Welsh commercial and BBC radio sectors, provide a unique opportunity for community radio in Wales. There is clearly potential for community radio to facilitate an alternative voice for the communities of Wales, particularly encouraging citizen participation in the field of localised media. Furthermore, it is argued vehemently that the survival and growth of Welsh community radio is crucially important and that its sustainability should be made 'a specified political, regulatory and cultural priority' (Johnson and Mitchell 2012:24).

The Centre for Community Journalism at Cardiff University has worked with a number of hyper-local websites (websites generating and focusing on very local news stories) in Wales, nurturing coverage of community-based content that may not otherwise be covered by the mainstream media. Hargreaves (2013) sees this new form of online community journalism, as being particularly useful in Wales, as, depending on adequate mobile network coverage and broadband availability it can

take place anywhere, even in some of the more sparsely populated and mountainous regions of the nation. Stewart (2012) argues that citizen journalism is ideally suited to community radio, providing a unique opportunity for the sector to act as a facilitator of 'democratic participation, to that extent filling a democratic deficit' (Stewart, 2012). I agree wholeheartedly with that premise. However, it is essential that community radio overtly makes the point about the unique role it can play within the UK broadcasting marketplace. Such overt identification would greatly help the sector to justify requests for the continuance of subsidies, enabling the community radio sector to sustain its impressive social gain delivery.

Howley (2010) describes how 'articulations' meld partnerships between previously un-connected groups, celebrating communities of 'commonality as well as difference' (Ibid). He outlines how such articulations enable the stations to construct and modify links with key agencies, such as funders, volunteer groups and local councils, creating 'shared identity and collective solidarity between disparate groups and individuals' (Howley, 2010: 64). In that manner, feelings of communal belonging are, 'in large measure, articulated through communication' (Ibid). It is argued here that a similar philosophical shift should be encouraged in Wales, increasing collaboration between the various community radio stations of the nation. The Welsh community radio stations enable hyper-local media activity, encourage volunteer participation and widen progressive learning aspirations. For this to continue; there is an urgent need for a conscious, collaborative 'coming together'.

In that spirit, it is perhaps useful to visualise the stations of Wales, themselves, as occupants of a shared community and to assess how those stations communicate with each other. As an encouragement for further inter-action, the Wales Community Radio Network (WCRN) website, the first digital cluster of its type in Wales, was set up, as an online platform for collaboration in 2011. The Welsh community radio stations strategically use social media, such as Facebook, Twitter and What's App to promote themselves. It is suggested here that a dedicated networking website, such as the WCRN, has the potential to benefit the stations in their communication flows with their audiences, other stations and external partners. Increased networking and a move towards more of a shared identity might be highly beneficial in generating advertising sales for the sector, being potentially useful as a means of aggregating advertising revenue regionally and/or nationally.

The eclectic nature of the Welsh community radio sector is plain to see. That eclecticism should be welcomed by the CR stations of Wales, acknowledging the fact that 'community life is far more diverse' than might commonly be imagined (Howley, 2010: 64). It is further suggested here that the stations in Wales augment their proud, independent integrity by constructing communities that serve 'not only to create a common identity among different people but also to differentiate one community from another' (Howley, 2010: 64).

A topical example of 'articulation' was provided, in 2013, when the (then) Department of Culture, Media and Sport (DCMS) issued the Community Radio Consultation Document (2014). Amongst other objectives, it sought responses from the UK community radio sector on the relaxation of restrictions on commercial income, where stations' broadcast areas overlapped with local commercial stations with less than 150,000 listeners. The DCMS consultation was of great interest to the community radio sector in Wales. Just one of the five commercial stations covering mid, west and north Wales, Radio Carmarthenshire, had a MCA above 150,000. At the time, this negated the right of Môn FM, Tudno FM, Point FM, Glan Clwyd AM and (notably) Radio Beca to sell advertising. These were restrictive limitations on these Welsh stations. Indeed, it is difficult to envisage how the stations affected were expected to survive and flourish without the ability to generate realistic levels of commercial support.

Radio Beca, serving pockets of Welsh-speaking communities across a larger area than normal would have been subject to increased transmission costs and was highly likely to have found the restrictions particularly challenging. Their intended broadcast territories included areas served by two commercial radio competitors with less than 150,000 listeners Thus, under the existing legislation, they would have been restricted from selling advertising. The DCMS consultation document indicated that stations serving predominantly rural communities, such as the less densely populated, agricultural parts of mid, west and north Wales received the lowest average income per community served. Radio Beca would not only have been unable to sell advertising, but would also have faced higher than average transmission costs and done so in an area whose population had a lower than average disposable income. Facing such insurmountable obstacles, it is difficult to perceive how Radio Beca could ever have built a sustainable future for itself without significant changes to existing legislature. Ultimately, as stated previously, the station never went on-air. The community radio stations of Wales submitted a

joint response to the consultation document, speaking with a united voice, for the first time, under the auspices of the WCRN.

The legislative amendments suggested by the WCRN did not all come into fruition. Indeed, it is unknown that were even taken into account, within the consultation process. However, the idea of Welsh community radio speaking with one voice, is to be applauded and encouraged, adding strength, to opinions raised by individual stations and creating a national lobby group for the sector. Encouragingly, the eventual DCMS response included some relaxation of the limitations on community radio selling commercial airspace, allowing for all community radio stations to be able to raise annual income to a maximum level of £15,000 from advertising and/or sponsorship before application of any other current rule. This was a significant development for community radio in Wales. Above and beyond the £15,000 cap, stations could continue to raise additional commercial revenues so long as the total raised did not exceed 50 percent of their total income. They could do this, for example, by counting volunteer time, income from training contracts and localized Service Level Agreements to count against commercial income.

The freeing up of limitations, as a result of the DCMS community radio consultation process, on the community radio sector's ability to generate commercial support was gratefully received within the sector in Wales. It is seen as a positive move but, capped at such a low level, was not enough to make a definitive difference. Again, it is highly unlikely that this modification would have been enough to sustain Radio Beca, even if it had managed to get on-air. However, relaxations of limitations on the sale of advertising are certainly beneficial. Without on-going sustainability, the stations cannot continue to benefit their communities through the delivery of social gain outcomes.

There are other issues on which the WCRN could help to campaign for community radio in Wales. Further decreases in restrictions on community radio commercial revenue are vital, if the sector is to survive in Wales. Decreased reliance on external funding agencies for financial support is urgently needed, enabling the community radio stations of Wales to use their financial independence to develop robust, independent models for economic stability. Such autonomy would help the community radio sector to be economically pro-active, as they seek sustainable means of delivering social gain outcomes to their target communities in Wales. Increased independence, less reliance on limited pots of funding and deregulation

of the financial limitations on the sector, would all certainly enable a healthier long-term future for the sector in Wales.   However, a campaign group is only as active as its members.  Collaboration and connections are 'neither natural nor inevitable' (Howley, 2010: 65). Inter-actions, connections and linkages need to be actively initiated, if they are to occur.  The WCRN, or its equivalent, would appear to provide an effective platform for further discussion about pro-active, lobbying, collaborative activity within the Welsh community radio sector.

The recently published Department for Digital Culture Media and Sport (DDCMS) consultation statement did not come to the conclusion that commercial radio stations will be obliged to provide Wales - specific news.  That is concerning, as without such enforcement, one wonders where Wales-orientated content will be generated, aside from the BBC. .  It is perhaps worth mentioning here that there is, of course, no BBC local radio in Wales, just a, national service.    As mentioned earlier, there is potentially an opening here for community radio to provide hyper-local (citizen) news content for Wales.  As cited earlier, Wales needs to build its indigenous media outlets, not diminish them.  A London based news hub may well be cost-effective for commercial radio operators but Wales needs journalistic feet on the ground, if it is to adequately serve the needs of the nation. These are all pertinent issues that deserve a united, collaborative response from the Welsh community radio, most expediently, perhaps, through the auspices of the WCRN. The WCRN may also be able to act as a lobby group for Welsh community radio, accumulating responses to the current government consultation on small scale D.A.B licensing.  Trials have taken place in England but none, as yet, have occurred here in Wales.

Of course, solidarity can only come into being if participants actively engage in the process. The manner in which sets of interests between groups are articulated is just one of many possibilities, with countless other articulations also being possible.  The non-fixed nature of 'articulation' exemplifies the personal influence on how these linkages take shape, illustrating 'the ability of human action to alter, remake, or re-create any social formation' (Ibid).  The Welsh community radio stations need to grasp the nettle and consciously manufacture connections and collaborative links that suit the needs of all parties, in so doing, adding a fresh tier of indigenous, hyper-local media in Wales. This articulation and re-articulation of links with government, local councils, grant funders and business partners, as detailed by Howley (2010) is a key factor in the enablement of sustained social gain delivery by community radio in Wales.

The value of Howley's articulation theory and the ways in which its application potentially impact on the on-going viability of the community radio stations of Wales is acknowledged here. Each individual station is tasked with 'articulating a vision of community' (Ibid) that encourages a broad range of participation in their daily operations. Clearly, if members of a local community can see, or hear that social gain is being instigated by their community radio station it is more likely that they will participate. The Welsh community radio stations need to identify how the 'particular and distinctive assets and attributes' of these Welsh localities can be articulated in a manner that respects and reflects 'the lives and experiences of local communities' (Ibid). They also need to overtly communicate that message, in partnership with other agencies.

It is acknowledged that articulation is 'not exclusive to the community radio sector' (Howley, 2010: 69). However, community radio is the only form of broadcasting that is obliged, through legislation, to meet designated social gain objectives whilst simultaneously delivering economic stability. In addition, community radio does this in a non-profit making, often charitable, capacity, and, as outlined here, often faces limitations on its ability to generate commercial revenues and access sources of public funding. The links formulated by community radio are unique in the way that they are strategically 're-articulated to suit the particular and distinctive needs of local communities' (Ibid). In this case, a disparate range of Welsh community radio stations have developed a new way of collaborating with each other, using that as a means of strategically and effectively lobbying a government agency for deregulation. It is hoped and envisaged that further imaginative coupling of hitherto un-connected agencies will ensue, allowing a way for community radio for Wales to survive and flourish.

Finally, looking to the near future, it is worth considering the impact of digital switchover in the UK. This is certainly not all bad news. Digital broadcasting might provide the option for greater capacity. It might allow for additional community radio stations, possibly serving communities of interest as well as geographic communities to be able to launch, enhancing levels of plurality for radio listeners. However, there are concerns that community radio stations may become isolated on FM, with the bulk of listening taking place on DAB and other digital platforms. Ofcom has successfully conducted low power/low cost DAB transmission trials options for community radio in England. In order to retain listener awareness of community radio, it is vital that the stations also migrate to DAB when the UK switchover occurs. It is concerning that commercial stations will be able to drop

their localness requirements on migration to DAB. This could be highly problematic in Wales, with stations owned by major conglomerates becoming effectively London-based networks featuring very limited local news, weather or traffic information for Wales. In such circumstances, the community radio stations in Wales may well have a vital role to play, in the accumulation and provision of genuine local news and information.

## References


Bank of England (2009) Statistical inter-active database. Available at: BBC, Ian Hargreaves says citizen journalism has big role in Wales (2013). Available at: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-22419883 (accessed 06/06/2013).

Equality and Human Rights Commission, How fair is Wales? (2011) Available at: http://www.equalityhumanrights.com/about-us/devolved-authorities/commission-wales/library/how-fair-wales (accessed 29/06/2013).

Howley, K (2010). Notes on a Theory of Community Radio, in Howley, K (Ed) Understanding Community Media, London, Sage.

Johnson, S (2016) Community Radio in Wales: New Voices with a Welsh accent, in 3CMedia, Issue 8, Melbourne, Community Broadcasting Association of Australia

Johnson, S and Mitchell, P (2012). In Search of Access, Localness and Sustainability: Radio in Post – devolutionary Wales, in Hand, R and Traynor, M (eds) Radio in Small Nations: Production, Programmes, Audiences, Cardiff, University of Wales Press.

Stewart, J. (Interview) August 3rd, 2012

Talfan – Davies, G and Morris, N (2008). Media in Wales: Serving Public Values, Cardiff, Institute of Welsh Affairs.

Wiliam, H (2011) Deployment Plan for the Welsh Community Radio Station Cluster, unpublished.

Williams, K (2008). Broadcasting and the National Assembly: The future of broadcasting policy in Wales, from Cyfrwng, Media Wales Journal, Cardiff, University of Wales Press.

## Online sources


DDCMS (2017)
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668926/Commercial_radio_deregulation__Government_response_final.pdf

Accessed 14/02/2018

DDCMS (2018)

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/671660/Small_Scale_DAB_Consultation.pdf

Accessed 14/02/2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Radio yng Nghymru / Radio in Wales
CWLC(5) RADIO06
Ymateb gan BBC Cymru / Evidence from BBC Wales

## 1. Cyflwyniad

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr adolygiad hwn o radio yng Nghymru. Yn rhy aml, mae radio'n gyfrwng nad yw'n cael y gydnabyddiaeth mae'n ei haeddu er gwaethaf ei apêl a'i effaith oesol i gynulleidfaoedd.

Serch bod tirlun y cyfryngau yn newid, mae Radio'r BBC yn parhau'n rhan greiddiol o fywyd bob dydd i lawer. Ledled y DU, mae'n cyflwyno gwybodaeth, yn addysgu ac yn diddanu bron i 35 miliwn o bobl bob wythnos. A 95 mlynedd ers y darlllediad radio cyntaf yng Nghymru, mae Radio'r BBC yn parhau i wneud cyfraniad hanfodol i gymdeithas, diwylliant a bywyd cenedlaethol yng Nghymru.

Nodwn fod yr adolygiad wedi amlinellu nifer o feysydd mae'n awyddus i'w harchwilio. Pwrpas y dystiolaeth hon yw rhoi trosolwg i'r pwyllgor o ddarpariaeth radio'r BBC yn gyffredinol yng Nghymru. Mae'r portffolio hwn yn cynnwys ein gwasanaethau radio cenedlaethol – BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru a Radio Cymru 2 a lansiwyd yn ddiweddar – yn ogystal â gwasanaethau radio rhwydwaith y BBC.

## 2. Cynulleidfaoedd Radio'r BBC yng Nghymru – trosolwg

Mae Radio'r BBC yn denu mwy o wrando yng Nghymru nag yn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae tua 70% o oedolion yng Nghymru'n clywed unrhyw ddarpariaeth gan Radio'r BBC bob wythnos – ffigwr llawer uwch na'r gwledydd eraill: Gogledd Iwerddon (59%) a'r Alban (60%). O ran cyfran y farchnad, mae Radio'r BBC yn cyfrif am 56% o'r holl oriau gwrando yr wythnos yng Nghymru (gyda gorsafoedd rhwydwaith yn cyfrif am 48% a Radio Wales/Radio Cymru'n ychwanegu 8% arall). Eto, mae hyn yn uwch nag yn unrhyw le yn y DU.

Gellir priodoli'r perfformiad cryf  hwn i raddau helaeth i apêl gwasanaethau rhwydwaith fel Radio 1, Radio 2 a Radio 4 – a gwendid cymharol radio masnachol.[1] Yn benodol, mae twf cynulleidfa Radio 2 yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn nodedig. Yn 2016-17, roedd  37% o oedolion yng Nghymru'n gwrando ar Radio 2 bob wythnos (tuag 1 miliwn o wrandawyr), gyda phob gwrandäwr yn treulio 12.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd gyda'r orsaf.

## 2.1 Cynulleidfaoedd Radio Wales a Radio Cymru

Mae ein gwasanaethau radio cenedlaethol, Radio Wales a Radio Cymru, yn cyflawni rôl anhepgor fel rhan o bortffolio radio'r BBC.  Mae'r ddwy orsaf yn cefnogi ymrwymiad BBC Cymru i gefnogi a chryfhau dinasyddiaeth yng Nghymru, gydag ymrwymiad cadarn a chynhwysfawr i newyddion, materion cyfoes, chwaraeon, cerddoriaeth a diwylliant,

Ar gyfartaledd, mae 372,000 o bobl yn gwrando ar **BBC Radio Wales** bob wythnos (cyfartaledd RAJAR ar gyfer 2017). Mae cyfran Radio Wales o'r holl wrando ar y radio yng Nghymru oddeutu 5% ac mae'r orsaf yn y pumed safle o ran gwrandawyr yng Nghymru y tu ôl i BBC Radio 1, BBC Radio 2, BBC Radio 4 a Heart South Wales. Ar gyfartaledd, mae gwrandawyr Radio Wales yn gwrando am tuag 8 awr yr wythnos.

Mae **BBC Radio Cymru** yn cyrraedd 127,000 o oedolion yng Nghymru – gyda phob gwrandäwr ar gyfartaledd yn treulio mwy nag 11 awr bob wythnos gyda'r orsaf. Radio Cymru yw'r orsaf fwyaf poblogaidd ymhlith siaradwyr rhugl Cymraeg, yn cyfrif am 20% o'u holl wrando ar y radio yn 2017. Ddeugain mlynedd ers ei sefydlu, mae Radio Cymru'n parhau i fod yn sylfaen i'r ddarpariaeth cyfryngau Cymraeg gyffredinol, gan gyfrif am fwy na 60% o'r holl oriau ar y cyfryngau Cymraeg a ddefnyddir gan gynulleidfaoedd.

---

[1] *Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC* (2016/17), 2016/17, t.39

## 3. BBC Radio Wales

Sefydlwyd BBC Radio Wales fel gwasanaeth cenedlaethol yn ei hawl ei hunan ym mis Tachwedd 1978 – achlysur y gellid dadlau, yn ôl disgrifiad yr hanesydd Dr John Davies, oedd y digwyddiad unigol pwysicaf yn hanes darlledu Cymraeg.[2]

Roedd y dechreuadau nôl ym 1978 yn rhai digon di-nod gyda dim ond 45 awr yn cael eu darlledu bob wythnos ond erbyn hyn mae Radio Wales yn darparu gwasanaeth llafar llawn i oedolion, gan gynnig amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn 2016/17, roedd cyllideb weithredol Radio Wales yn £14.2m gyda 7,593 o oriau darlledu. O blith yr oriau hyn, mae 1,868 yn oriau Newyddion a Materion Cyfoes, gyda rhaglenni cyffredinol yn cyfrif am 5,725 o oriau pellach.

Ar ddiwedd 2016, penodwyd Colin Paterson yn Olygydd newydd yr orsaf. Mae gwaith wedi dechrau yn awr ar gryfhau safle'r orsaf yng Nghymru, cyn iddi ddathlu ei phen blwydd yn 40 yn 2018. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar *Good Morning Wales* – gan gefnogi newyddiaduraeth sy'n berthnasol i'n cynulleidfa ni, chwaraeon sy'n dod â'r genedl at ei gilydd, gwell amrywiaeth a dyfnder yn nghynnwys rhaglenni'r dydd a chadarnhau cefnogaeth BBC Cymru i gomedi gwreiddiol.

Mae'r cyflwynwyr newydd sydd eisoes wedi'u cyhoeddi gan yr orsaf yn cynnwys cyflwynydd *BBC Wales Today* Lucy Owen, yr athletwr Olympaidd Colin Jackson, y gantores Connie Fisher a chyn gyflwynydd ar BBC Radio 2, Janice Long.

---

[2] *Broadcasting and the BBC in Wales*, John Davies, Caerdydd, 1994, t. 347

### 3.1 Newyddion a Chwaraeon

Mae Radio Wales yn chwarae rhan hanfodol mewn rhoi gwybodaeth i gynulleidfaoedd Cymru drwy gyfrwng rhaglenni newyddion a chwaraeon o safon uchel.

Prif elfen cynnwys newyddion yr orsaf yw'r rhaglen *Good Morning Wales* gyda bwletinau newyddion drwy gydol y dydd hyd at ac yn cynnwys *Good Evening Wales*. Mae'r ddwy brif raglen yma'n defnyddio canolfannau casglu newyddion y BBC ledled Cymru, gan gynnwys Wrecsam, Bangor, Caerfyrddin ac Abertawe, yn ogystal â'n rhwydwaith o ohebwyr lleol.

Rhoddir sylw i bynciau amserol hefyd gyda rhaglen ffonio i mewn Jason Mohammad / Dot Davies yn y bore. Mae *Eye on Wales* yn darparu rhaglenni materion cyfoes ac yn ddiweddar mae wedi rhoi sylw i bynciau heriol a phwysig fel seicosis ôl-eni.

Darperir allbwn gwleidyddol Radio Wales gan dîm gwleidyddol BBC Cymru yng Nghaerdydd a San Steffan. Gyda'r DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Radio Wales yn elwa hefyd o waith dau ohebydd Brexit ychwanegol - rhan o gynlluniau ailfuddsoddi Siarter newydd y BBC. Ar ddyddiau Sul, mae Vaughan Roderick yn cyflwyno rhaglen drafod wleidyddol, *Sunday Supplement,* sy'n rhoi sylw i faterion yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Mae sylw Radio Wales i chwaraeon yr un mor helaeth. Mae lleisiau cyfarwydd a dibynadwy fel Rob Phillips a Nathan Blake yn dod â'r newyddion diweddaraf am bêl droed cartref a rhyngwladol Cymru (dynion a merched) ac mae Gareth Charles a Nick Webb yn rhoi sylw i gemau rygbi cartref, gemau'r Pro 14 a gemau Rygbi'r Undeb Rhyngwladol. Mae'r sylwebaethau ar Griced Sirol Morgannwg yn cael eu ffrydio'n fyw ar iPlayer radio ac mae'r gemau T20 a T40 yn cael eu darlledu ar y Donfedd Ganol. Fis Ebrill eleni, bydd yr orsaf yn rhoi sylw helaeth i ymdrechion tîm Cymru yng Ngemau Cymanwlad yr Arfordir Aur 2018.

## 3.2 Cerddoriaeth

Mae Radio Wales yn noddwr pwysig i ddiwylliant Cymru drwy gyfrwng ei rhaglenni cerddoriaeth, adloniant a chelfyddydau.

Mae datblygu a hybu cerddoriaeth Gymreig yn rhan greiddiol o'i chenhadaeth ar raglenni yn ystod y dydd, fel Wynne Evans ac Eleri Siôn, yn ogystal ag ar raglenni eraill mwy arbenigol, fel Bethan Elfyn a *Celtic Heartbeat*, sy'n cael ei chyflwyno gan Frank Hennessy.

Yn 2017, cryfhaodd Radio Wales y gwaith mae'n ei wneud yn hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig newydd gan gyflwyno *'The Welsh A List'*; 40% o'r gerddoriaeth ar restr chwarae o gerddoriaeth newydd sy'n cael ei chynhyrchu bob pythefnos. Mae '*The Welsh A List*' yn rhoi sylw cyfartal i bedwar artist o Gymru, sy'n perfformio yn Saesneg neu yn y Gymraeg, ar yr amserlen.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae Radio Wales hefyd wedi cefnogi menter gerddoriaeth ar y cyd rhwng BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae artistiaid o bob cwr o Gymru'n cael eu dewis bob blwyddyn i fod yn rhan o brosiect Gorwelion, sy'n helpu i ddatblygu cerddoriaeth gyfoes newydd yng Nghymru. Mae artistiaid Gorwelion yn cael sylw ar raglen Janice Long, sy'n cael ei darlledu o Wrecsam bob gyda'r nos yn ystod yr wythnos, ac ar adegau amrywiol eraill ar yr amserlen.

Hefyd mae cerddoriaeth fyw'n rhan greiddiol o raglenni'r orsaf. Mae perfformiadau byw'n cael eu darlledu yn ystod dyddiau'r wythnos ac mae hyd at bedwar sesiwn byw y mis ar sioe Janice Long. Hefyd rydym yn darlledu o wyliau pwysig yng Nghymru, gan gynnwys Proms Yn Y Parc, Gŵyl Rhif 6, Gŵyl Focus a Gŵyl y Dyn Gwyrdd.

Fis Mai eleni, bydd BBC Radio Wales yn gweithio â chydweithwyr o BBC Radio 1 i sicrhau bod digwyddiad y Biggest Weekend sy'n cael ei gynnal yn Abertawe'n cynnwys y goreuon ymhlith perfformwyr y DU a Chymru.

### 3.3 Rhaglenni Adloniant, y Celfyddydau a Dogfen

Mae Radio Wales yn arbennig o frwd ei chefnogaeth i gomedi yng Nghymru. Ymhlith rhai o'r enwau allweddol sy'n gweithio gyda Radio Wales ar hyn o bryd mae Ruth Jones, Elis James a Steve Speirs. Hefyd eleni byddwn yn ffurfio partneriaeth gyda BBC Radio 4 Extra i gefnogi Gŵyl Gomedi Machynlleth.

Mae datblygiadau ar draws y byd celfyddydol yng Nghymru'n cael sylw rheolaidd ar ein rhaglenni newyddion a dyddiol, tra mae Nicola Heywood Thomas yn cyflwyno adolygiadau, adroddiadau a dadansoddiad wythnosol ar y *Radio Wales Arts Show*. Fis Ebrill byddwn yn lansio rhaglen newydd sbon yn adolygu'r celfyddydau yn fisol. Bydd yn cael ei chyflwyno gan Gary Raymond, Golygydd *Wales Arts Review*.

Hefyd mae BBC Radio Wales yn cynhyrchu amrywiaeth o raglenni ffeithiol a hanes. Ymhlith y rhai sydd wedi cael sylw'n ddiweddar mae stori Blanche Parry, cyfeilles agos i Frenhines Elizabeth 1, a golwg gynhwysfawr ar Edward Thomas gan fardd arall, Gwyneth Lewis, i nodi canmlwyddiant ei farwolaeth ym Mrwydr Arras.

## 4. BBC Radio Cymru

Mae'n amhosibl gorbwysleisio pwysigrwydd BBC Radio Cymru i siaradwyr Cymraeg. Ddeugain mlynedd ers ei lansio, dyma'r orsaf radio fwyaf poblogaidd ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda'i chyfuniad unigryw o gerddoriaeth, trafodaeth, adloniant, diwylliant a newyddion.

I siaradwyr Cymraeg, dyma ein siambr drafod, ein theatr, ein neuadd gyngerdd, ein stadiwm chwaraeon, ein capel, ein man cyfarfod, ein llyfrgell, ein clwb comedi, a'n tafarn leol i gyd o dan yr un to. Y ffordd orau i grynhoi'r amrywiaeth a'r arbenigrwydd yma yw drwy deitlau rhai o raglenni Radio Cymru: o adloniant *Sioe Tudur Owen* i ganu emynau cynulleidfaol *Caniadaeth y Cysegr*, a chyfweliadau treiddgar Beti George ar *Beti a'i Phobol*.

Yn ei deugeinfed flwyddyn, mae gan yr orsaf gyllideb weithredu o £13.6m y flwyddyn ac mae'n darlledu 7,262 o oriau.[3] Mae hyn yn cynnwys 1,335 o oriau o Newyddion a Materion Cyfoes, tra mae 5,927 o oriau'n cynnwys rhaglenni cerddoriaeth, llafar, y celfyddydau ac adloniant.

### 4.1 BBC Radio Cymru 2

Lansiwyd BBC Radio Cymru 2 yn ddiweddar, ym mis Ionawr 2018, ac mae'n rhan allweddol o gynlluniau ailfuddsoddi Siarter newydd BBC Cymru.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth brecwast arall ar DAB, DTV a BBC iPlayer Radio yn genedlaethol. Tra mae prif wasanaeth Radio Cymru'n parhau i ganolbwyntio ar newyddion amser brecwast, mae Radio Cymru 2 yn cynnig cymysgedd o adloniant a cherddoriaeth ar gyfer y gwrandawyr yn awr.

Y bwriad strategol tu ôl i Radio Cymru 2 yw cynnig dewis arall yn y Gymraeg i wrandawyr presennol Radio Cymru a gwrandawyr newydd o bosib. Mae Daf a Caryl yn cyflwyno *Y Sioe Frecwast* (Llun-Iau) tra mae Huw Stephens yn cyflwyno ar foreau Gwener. Mae Lisa Angharad yn cyflwyno ar foreau Sadwrn a Lisa Gwilym ar foreau Sul.

### 4.2 Newyddion a Chwaraeon

Mae Radio Cymru'n darparu gwasanaeth newyddion dibynadwy i'w wrandawyr, gan ddechrau gyda'r *Post Cyntaf* yn y bore, sy'n cael ei gyflwyno gan Kate Crockett yng Nghaerdydd a Dylan Jones ym Mangor. Ategir y *Post Cyntaf* gan raglen y *Post Prynhawn* gyda'r nos, sy'n cael ei chyflwyno gan Dewi Llwyd a Nia Thomas o Fangor.

---

[3] *Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC*, 2016/17, tt.39 a 94 (d.s. nid yw'r oriau hyn yn cynnwys Radio Cymru 2 a lansiwyd yn ddiweddar).

Mae'r rhaglenni newyddion yn cyflwyno cyfuniad o newyddion Cymru, y DU a rhyngwladol.  Mae'r rhaglenni hefyd yn defnyddio holl adnoddau casglu newyddion y BBC yn ogystal â gallu nodedig Radio Cymru i ddod o hyd i siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o'r byd.  Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi cynnwys Radio Cymru'n darparu adroddiadau o ansawdd uchel ar ddigwyddiadau arwyddocaol fel Refferendwm Brexit, ymosodiadau terfysgol Paris ac ethol Donald Trump yn Arlywydd UDA.

Mae Garry Owen yn cyflwyno *Taro'r Post* dros ginio, sef rhaglen i wrandawyr ffonio i mewn iddi, ac mae *Manylu* yn rhaglen sy'n cyflwyno materion cyfoes a straeon heriol yn gyson. Mae *Hawl i Holi*, a gadeirir gan Dewi Llwyd, yn cynnig rhaglen yn arddull Q*uestion Time* o leoliadau ledled Cymru ac mae *O'r Bae* yng ngofal Vaughan Roderick yn darparu crynodeb wythnosol o ddigwyddiadau ym Mae Caerdydd ac yn San Steffan.

Mae *Camp Lawn* ar ddyddiau Sadwrn yn cynnig sylw cynhwysfawr i chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys pêl droed a rygbi'r undeb gartref ac yn rhyngwladol. Ategir sylwebaeth ar gemau a darlledu byw gan y sioe bêl droed ar ddydd Sadwrn, *Ar y Marc*, a sylw rheolaidd gyda'r nos yn ystod yr wythnos i gemau pêl droed allweddol.

### 4.3 Rhaglenni cerddoriaeth

Ers y dechrau un, mae Radio Cymru wedi bod yn hyrwyddwr cyson o gerddoriaeth Gymraeg. Mae'n gwneud hynny'n ddyddiol ac mae wedi bod yn ffenest siop i artistiaid newydd ac artistiaid sydd wedi ennill eu plwy. Mae'r ystod o gerddoriaeth Gymraeg sy'n cael ei darlledu'n ymestyn o elfennau yn y bore fel rhaglen Sian Cothi i sioeau mwy arbenigol fel sioeau gyda'r nos Rhys Mwyn neu Georgia Ruth.

Gyda dyfodiad Radio Cymru 2, mae Radio Cymru yn awr yn cynnig y swmp a'r dewis mwyaf erioed o ran cerddoriaeth Gymraeg. Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd BBC Radio Cymru ei bod wedi sicrhau cytundeb pum mlynedd gydag asiantaeth breindaliadau, Eos, ar gyfer y defnydd o gerddoriaeth ar orsaf Gymraeg

ei hiaith BBC Cymru, Radio Cymru 2, yn ogystal â gwasanaethau darlledu eraill y BBC ledled y DU.

Y bartneriaeth fawr arall yw menter Gorwelion a ddisgrifiwyd yn gynharach. Ers 2014, mae'r fenter hon wedi helpu llawer o artistiaid newydd o Gymru, gan gynnwys Casi, Yr Eira a Candelas, gyda bwrsarïau, dosbarthiadau meistr a sylw ar gyfryngau darlledu.

Yn ogystal, mae cerddoriaeth yn sylfaen i ddarpariaeth helaeth Radio Cymru o Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Eleni, bydd Radio Cymru'n gweithio'n agos â threfnwyr Eisteddfod yr Urdd yn Aberhonddu a Sir Faesyfed, a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, i sicrhau bod y ddwy ŵyl yn cael sylw darlledu cynhwysfawr o'u lleoliadau arloesol.

Yn olaf, mae Radio Cymru'n rhan ganolog o bartneriaeth gynhyrchiol gyda Maes B yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gyda *Brwydr y Bandiau* yn gyfle unigryw i fandiau ifanc berfformio ar lwyfan mwy.

### 4.4 Rhaglenni Adloniant, y Celfyddydau a Dogfen

Mae BBC Radio Cymru yn gyfrifol am nifer o gomisiynau artistig pwysig, yn enwedig mewn mathau o raglenni lle nad oes llawer o ddarpariaeth Gymraeg arall.

Mae ysgrifennu comedi a drama'n faes hynod bwysig, gyda'r orsaf wedi comisiynu awduron fel Siôn Eirian, John Ogwen a Manon Steffan Ros yn ddiweddar. Mae'r rhaglen gelfyddydol wythnosol *Stiwdio*, sy'n cael ei chyflwyno gan Nia Roberts, yn gyfle am drafodaeth fanylach ar y materion hyn ac mae *Talwrn y Beirdd* yn gystadleuaeth farddol wythnosol o fri o leoliadau ledled Cymru. Mae *Llyfr Bob Wythnos* yn rhoi sylw i lyfr sydd wedi'i gyhoeddi o'r newydd bob wythnos ac mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â'r corff i gyhoeddwyr llyfrau Cymraeg, Cwlwm Cyhoeddwyr.

Mae ymfalchïo yn hanes unigryw Cymru wedi bod yn llinyn cyson drwy gydol hanes BBC Radio Cymru. Cofnododd *Hanes yr Iaith Gymraeg mewn 50 Gair* gan Ifor ap Glyn ddatblygiad yr iaith mewn 50 o ddarnau byrion. Hefyd nododd yr orsaf dri chanmlwyddiant geni'r emynydd, William Williams Pantycelyn.

## 5. Cynhyrchu rhwydwaith Radio'r BBC yng Nghymru

Ochr yn ochr â gwaith Radio Wales a Radio Cymru, mae BBC Cymru hefyd yn cynhyrchu nifer mawr o raglenni radio rhwydwaith ar gyfer BBC Radio 3 a BBC Radio 4 ym maes drama, rhaglenni ffeithiol, cerddoriaeth a'r celfyddydau.

Yn ystod 2016/17, cynhyrchwyd cyfanswm o 379 o oriau o raglenni gennym ar gyfer y rhwydweithiau hyn yn y DU.

Ym maes dramâu radio, o dan arweinyddiaeth ac arbenigedd Alison Hindell, rydym yn gweithio gydag awduron profiadol yn ogystal â meithrin talentau newydd, gan weithio'n agos â Writersroom Wales.

Ymhlith uchafbwyntiau'r llynedd roedd *Tracks,* cyfres gyffrous am gynllwyn cudd wedi'i lleoli yng Nghymru. Roedd y gyfres gyntaf (a ddarlledwyd yn haf 2016) yn flaenoriaeth fawr i Radio 4 a chynigiwyd y 9 pennod fel cyfle '*iPlayer First'* i lawrlwytho'r bennod nesaf yn syth ar ôl darlledu'r bennod wythnosol. Cafodd ei lawrlwytho gymaint hyd nes iddi gyrraedd rhif 1 yn siart podlediadau iTunes a rhyddhawyd yr ail gyfres ar-lein i'w lawrlwytho sawl wythnos cyn ei darlledu ar y radio (ym mis Rhagfyr 2017). Bydd y 3edd gyfres yn dechrau yn hydref 2018.

Prosiect golygyddol allweddol arall a gyflwynwyd yn ddiweddar oedd *Curious Under the Stars* – cyfres a grëwyd yn wreiddiol gan y diweddar Meic Povey. Wedi'i lleoli mewn pentref ffuglennol ar arfordir Gorllewin Cymru, dyma ddrama gomedi gynnes sy'n cynnwys golwg newydd ar chwedloniaeth Cymru gyda chyffyrddiad realaidd hudolus.

Wedi'u comisiynu eisoes ar gyfer y 12 mis nesaf mae gennym ddrama newydd *The Mabinogion* ar gyfer Radio 3; *The Castle of the Hawk*, dechrau ar gyfres fawr a pharhaus yn portreadu hanes llinach Habsburg a *The Life and Times of Maya Angelou*, gyda phob un o'r 6 chyfrol o hunangofiant Angelou wedi'u dramateiddio mewn cyfres ar gyfer Radio 4.

Rydym hefyd yn cyflwyno rhaglenni ffeithiol yn rheolaidd ar gyfer Radio 4, gyda'r golygydd radio rhwydwaith Martin Smith yn gweithio'n agos â chomisiynwyr Radio 4 a Radio 3 yn Llundain.

Ymhlith uchafbwyntiau Radio 4 yn 2017 roedd *The Black Chair*, rhaglen ddogfen am Hedd Wyn a gyflwynwyd gan y bardd Mab Jones; *Snapshots,* rhan o gyfres ar ffotograffiaeth yn rhoi sylw i un o glybiau'r gweithwyr ym Mhort Talbot; *Wintertide*, gwaith a gomisiynwyd yn arbennig ac yn cael ei ddarllen gan Cynan Jones a *Cân yr Adar: Song of the Birds*, cydweithrediad cerddorol rhwng Kizzy Crawford a Gwilym Simcock.

Wedi'u comisiynu eisoes ac i gael eu cynhyrchu yn nes ymlaen eleni ar gyfer Radio 4 mae gennym ni: *Behind the Scenes: Kully Thiarai* – yn dilyn cyfarwyddwr newydd National Theatre Wales – *On and Off the Valleys Lines*, â'i ffocws ar fywydau'r bobl sy'n teithio ar drenau Lein y Cymoedd, ac *Opening Night*, rhaglen yn rhoi sylw i nosweithiau agoriadol lleoliadau theatr ledled Cymru.

Hefyd mae BBC Cymru yn cynhyrchu nifer o raglenni radio rhwydwaith ar gyfer Radio 3. Yn 2016/17, roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys rowndiau terfynol *Young Musician* yng Nghaerdydd; BBC Canwr y Byd Caerdydd; cyngherddau amser cinio Gŵyl y Gelli; *Choir of the Year Final* o Ganolfan Mileniwm Cymru; *In Parenthesis* gan Opera Cenedlaethol Cymru; a rhaglen arbennig ar ddydd Sul: *I Know an Island: R M Lockley* gyda Jon Gower yn ymweld ag Ynys Sgogwm oddi ar arfordir Sir Benfro.

## 5. Darlledu radio daearol yng Nghymru

Er bod Radio Wales a Radio Cymru wedi'u cynnwys ar lwyfannau BBC iPlayer Radio, Freeview, Cebl a Sky, mae darlledu gwasanaethau ar FM a DAB wedi bod yn destun trafod a phryder cyhoeddus sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

### 5.1 Darlledu ar FM

Ar FM, mae Radio Cymru bellach yn cael ei darlledu i 95% o Gymru, yn debyg i orsafoedd rhwydwaith y BBC. Fodd bynnag, mae BBC Radio Wales wedi bod ar ei hôl hi erioed gan ei bod wedi dewis darpariaeth y Donfedd Ganol wrth gael ei lansio yn 1977 ac, ers hynny, mae wedi bod yn ceisio dal i fyny.

Yn 2017, cyhoeddodd BBC Cymru gynlluniau ar gyfer ehangu mawr ar ddarlledu BBC Radio Wales ar FM - gan gynyddu darpariaeth yr orsaf o 79% i 91% o aelwydydd. Mae disgwyl y bydd y cynnydd i ddarpariaeth BBC Radio Wales ar FM o fudd penodol i wrandawyr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru. Bydd yr ehangu'n cael ei gyflawni drwy ddefnyddio nifer bach o donfeddi FM y rhwydwaith bresennol, sydd wedi'u neilltuo i BBC Radio 3 ar hyn o bryd.

### 5.2 DAB

Yn 2017, cwblhawyd ein gwaith o ehangu rhwydwaith DAB Cenedlaethol y BBC. Roedd hyn yn cynnwys 20 o drosglwyddyddion yng Nghymru, gan gynyddu darpariaeth gwasanaethau rhwydwaith y BBC yng Nghymru i 92% o aelwydydd a 72% o brif ffyrdd.

Mae Radio Wales a Radio Cymru'n cael eu trosglwyddo ar gapasiti a gedwir gan Ofcom ar aml-blecsau masnachol lleol nad ydynt yn cael eu gweithredu gan y BBC. Hefyd cefnogodd y BBC yr ehangu ar yr aml-blecsau masnachol hyn yng Nghymru - gan ymrwymo cyllid sylweddol tan 2030. Mae hyn wedi cefnogi'r gwaith o adeiladu neu addasu 19 o drosglwyddyddion hyd yma, gydag un neu ddau yn rhagor i'w cwblhau fel rhan o'r cam hwn o'r gwaith. Yn dilyn y gwelliannau

diweddar, mae darpariaeth BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru ar DAB wedi cynyddu i 82% o aelwydydd a 61% o ffyrdd.

### 5.3 Dyfodol radio analog (FM a'r Donfedd Ganol)

Rhaid i unrhyw drafodaethau ar y seilwaith darlledu gael eu gosod yng nghyd-destun cynlluniau Newid Analog DDCMS. Rydym yn disgwyl i wrando digidol (DAB, ar-lein, DTV) gyrraedd 50% yn y chwarter cyntaf eleni, gan sbarduno adolygiad gan DDCMS o bennu dyddiad ar gyfer newid ai peidio.

Barn y BBC ar y mater hwn yw ein bod yn cydnabod pwysigrwydd adolygiad o'r fath i'r gadwyn gyflenwi, ond rydym yn meddwl bod rhaid i Lywodraeth y DU roi ystyriaeth ofalus i arferion cynulleidfaoedd wrth iddynt esblygu, yn enwedig cynulleidfaoedd iau, ac uchelgais seilwaith y DU yng nghyswllt 5G.

Os bydd DDCMS yn penderfynu dechrau ar y broses newid, mae'r BBC wedi ymrwymo i sicrhau bod yr un gyfran yn y bôn o aelwydydd yn y DU sy'n derbyn gwasanaethau radio'r BBC mewn ffurf analog (MW/FM) yn gallu derbyn y gwasanaethau hynny'n ddigidol, yn amodol ar asesiad gwerth am arian llawn gan y BBC.

## 6. Edrych ymlaen – yr her ddigidol

Er gwaethaf apêl oesol radio i'r rhan fwyaf o wrandawyr, mae patrymau gwrando cynulleidfaoedd iau'n cael eu heffeithio gan gysylltedd band eang cynyddol, twf gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth a'r defnydd gan bron iawn pawb o ffonau clyfar, gan arwain at gystadlu cynyddol am amser hamdden ac adloniant [4].

Er bod radio'n parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc mewn niferoedd mawr, mae nifer cyffredinol yr oriau gwrando'n lleihau. Yn 2011, roedd pobl ifanc 15 i 19 oed ledled y DU yn gwrando ar y radio am gyfartaledd o 14 awr 49 munud yr wythnos.

---

[4] Enders Analysis, *Radio's relevance to young adults in danger*, t.4, Gorffennaf 2016

Erbyn 2016, roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 10 awr 50 munud – colled o 239 o funudau gwrando yr wythnos.[5]

Mae cynulleidfaoedd iau'n rhannu eu hamser yn awr rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth sain. Mae gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth, traciau digidol a fideos cerddoriaeth i gyd yn cyfrif am gyfrannau uwch o wrando ar gyfer ieuenctid 15 i 24 oed na'r gynulleidfa o oedolion yn ei chyfanrwydd. Wrth i'r ymddygiad hwn ehangu, bydd rhaid i'r BBC ail-ddychmygu dyfodol radio, gan ddefnyddio galluoedd technegol newydd a datblygu cynnwys sain newydd er mwyn parhau'n berthnasol i gynulleidfaoedd.

Mae ein gwasanaethau radio cenedlaethol (gan gynnwys Radio Cymru 2) eisoes yn elwa o raddfa a gallu technegol BBC Radio iPlayer. Ond mae gan bersonoli a mewngofnodi botensial clir i gyflawni datblygiadau pellach yn y maes hwn gydag algorithmau a sbardunir gan ddata sy'n ein galluogi i dargedu ein gwrandawyr yn well.

Hefyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae BBC Cymru wedi ehangu ei darpariaeth sain ar alw fel ymateb i'r farchnad sy'n newid. Mae'r rhain yn cynnwys podlediad pêl droed Elis James a hefyd *Pigion* ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Byddwn yn cyhoeddi ehangu pellach yn y maes hwn yn fuan.

Ochr yn ochr â datblygu cynnwys newydd, mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd bod y rhaglenni Cymraeg yn hawdd eu darganfod ar raglenni sain newydd, yn enwedig y rhai a reolir gan lais. Mae'n galonogol bod Radio Cymru 2 ar gael drwy Alexa ar Amazon.

Yn anochel, bydd ein gallu ni i arloesi yng Nghymru – ac i gynnig ystod ehangach o wasanaethau cyfryngau personol ac ar alw – yn dibynnu i raddau helaeth ar y seilwaith band eang sydd ar gael. Yn benodol, mae dosbarthiad radio yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf yn debygol o fod â ffocws cynyddol ar dechnolegau band eang 5G – maes lle mae Cymru, ar hyn o bryd, yn cael ei thanwasanaethu o gymharu â rhannau eraill o'r DU.[6] Bydd cynnydd yn y maes hwn yn gwbl allweddol er mwyn

---

[5] RAJAR Q3 2011-2016

[6] Ofcom *Connected Nations Report*, Wales (2017), p.40

sicrhau bod Cymru’n parhau i fod yn berthnasol mewn marchnad defnyddwyr sy’n datblygu’n gyflym.

**Ofcom Advisory Committee for Wales**
**Additional Submission to the Culture, Welsh Language and Communications Committee Inquiry: 'Radio in Wales'**

At the Committee's session on Thursday February 15, we were asked several questions to which we would now like the opportunity to respond.

**The Memorandum of Understanding**
We were asked about our views on the proposed Memorandum of Understanding between the UK Government, Welsh Government, National Assembly and Ofcom. We are aware how difficult it is to draw up such a memorandum between the different parties and that this document is based largely on the equivalent MoU involving the Scottish Government.

It deals primarily with the appointment of a Member from Wales on the Ofcom Board. We have long believed it is vital to represent the interests of Wales on the main Ofcom Board, and we note that the appointment of a Scottish Board member has already been announced. This sets a clear precedent which can be followed by the Welsh Government.

We understand there are reservations that the appointment is to be made by Welsh Government ministers with no input from the National Assembly or its relevant committees. It has however been a complex process getting agreement on the appointments procedure, and we are concerned that there should be no delay in the appointment of a Board Member from Wales in order that the interests of Wales can be represented at the highest level in Ofcom as soon as possible.

The MoU goes on to agree a process for Ofcom to consult the National Assembly on its strategic priorities as set out in its Annual Plan. It says clearly that Ofcom will consider any representations from the Assembly's appropriate committees through this process in formulating its Annual Plan. This is to be welcomed.

**The Deregulation of Commercial Radio**
In our evidence to the Committee, we argued that the Committee should take the opportunity to make representations to the DCMS in London on the deregulation of commercial radio. Without repeating the substance of our evidence, it revolved around the failure of the DCMS to acknowledge the existence of – or indeed the importance of – nations news (or all-Wales news) as part of a regulatory requirement on news provision for commercial radio in the future. It is promising legislation sometime in the next four years, and in the meantime Ofcom has been asked to review the existing regulations with a view to paving the way for that further legislation.

Neil Stock of Ofcom said he was happy to receive representations from the Committee and this is to be welcomed. But it is also important that the DCMS is made aware of the views of the Committee. Whatever the decisions taken by Ofcom, it is the DCMS who will draw up any legislation.

We were also asked to provide information about the demand and provision of nations news or all-Wales news. In 2016 Ofcom conducted research on news consumption in the UK which was published in June 2017, as part of its range of market research reports which examined the consumption of content, and attitudes towards that content, across different platforms. The aim of

the research was to inform an understanding of news consumption across the UK and within each UK nation. It examined the sources and platforms used, the perceived importance of different outlets for news, attitudes to individual news sources, local news use and news consumption in the nations. The research showed that one third (33%) of UK adults claimed that they consume news through radio, and this has remained stable over recent years. We attach a link to the Ofcom slide pack for this research[1]. The very last slide is of particular interest as it examines the level of interest in news about each UK nation. It shows that the percentage of respondents in Wales that were 'very interested' in news about the nation was higher than the percentage in England or for the UK as a whole (although lower than Scotland and Northern Ireland). Combined with the 'quite interested' category, the level of interest in news about Wales reached 80%.

In 2016, The BBC Trust also conducted a Review of the BBC's Radio Services for the UK Nations[2]. In relation to 'nations' news the report stated that, "*The BBC nations' news and radio services are a very important part of the BBC's offer in each of the devolved nations. They are highly distinctive, very focused on delivery of the BBC's public purposes and are seen as high quality by their audiences. These services play a particularly important role because Wales, Northern Ireland and Scotland are devolved within the UK in many important policy areas and each has a strong and distinct sense of identity. These services allow the BBC to properly inform citizens in each nation about news which is relevant to them including government policy areas affected by devolution such as education, agriculture, the environment, health and housing. Our research found clear audience demand for this output*."

**The work of Ofcom's Advisory Committee for Wales**

We were asked about the value of the work carried out by the Advisory Committee, and perhaps it would be helpful if we reiterated a few of the achievements of the ACW over the last few years. The Committee was responsible for, or instrumental in, the following achievements:

- The fact that 999 calls can roam across networks - of particular importance to rural Wales
- The inclusion of coverage obligations in the Nations in the spectrum auction for 4G
- The Channel 3 licence ensuring that ITV Wales maintained its programme obligations, with a separate licence for Wales
- Ofcom recognition of the lack of plurality in Wales' broadcast market
- The emphasis on representation and portrayal of the Nations in Ofcom's Operating Licence for the BBC.

***Glyn Mathias, Hywel Wiliam***
*21 Feb 2018*

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/103570/news-consumption-uk-2016.pdf
[2] http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/nations_radio_news/summary_report.pdf

Ofcom

Rhodri Williams
Director, Ofcom Wales

Direct line: 029 2046 7201

Mobile: 07786 636888

Rhodri.williams@ofcom.org.uk

21 Chwefror 2018

Annwyl Siân

**Cwotâu newyddion a materion cyfoes ar gyfer BBC Radio Wales.**

Hoffwn gywiro un peth a ddywedwyd yng ngwrandawiad y Pwyllgor yr wythnos ddiwethaf. Dywedodd Lee Waters AC bod Ofcom wedi lleihau ymrwymiadau BBC Radio Wales i ddarlledu 32 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes yn unig yn hytrach na'r targed blaenorol o 53 awr a osodwyd dair blynedd yn gynt.

Yr unig gyfeiriad at 53 awr y gallaf ddod o hyd iddo yw yn adolygiad gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC, lle mae'n ymddangos fel ffigur ar gyfer allbwn newyddion a materion cyfoes ar Radio Wales yn 2015/16 cyn cyflwyniad newid amserlen yn Chwefror 2016, wnaeth leihau'r cyfartaledd blynyddol rhagamcanol i 40 awr yr wythnos. Ni chafodd targed o 53 awr ei gosod erioed gan Ymddiriedolaeth y BBC ac yn sicr nid oedd yn ofyniad a osodwyd gan Ofcom ar umrhyw adeg.

Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae Ofcom wedi cyhoeddi Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC ac mae'r gofyniad ar BBC Wales i gynhyrchu 32 awr o raglennu yr un peth â'r gofyniad cafodd ei osod ddiwethaf gan Ymddiriedolaeth y BBC yn ei drwydded gwasanaeth cafodd ei osod yn Awst 2016. Wrth bwyso a mesur pa lefel i osod y gofyniad, roedd Ofcom yn ymwybodol o'r ffaith fod yr Ymddiriedolaeth newydd gynyddu ei dargedau newyddion a materion cyfoes ar gyfer radio'r cenhedloedd o ganlyniad i'w adolygiad gwasanaeth yn 2016 –"Mae pob un o'r gorsafoedd yn rhagori'n sylweddol nawr... ar gyfer allbwn newyddion a materion cyfoes. Felly (mae'r Ymddiriedolaeth) wedi addasu'r cwotâu i adlewyrchu lefelau cyflawni mwy diweddar."

http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/nations_radio_news/cy_summary_report.pdf

Cafodd y cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar Radio Wales eu cynyddu o 24 i 32 awr gan Ymddiriedolaeth y BBC. Hyderaf y bydd adroddiad y Pwyllgor maes o law yn cynnwys y manylion cywir.

Cofion gorau

Rhodri Williams

Cyfarwyddwr, Cymru

Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Office of Communications

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd
CF10 4DQ

Teleffon +44 (0)29 2046 7200
Ffacs +44 (0)29 2046 7233
E-bost cymru@ofcom.org.uk
www.ofcom.org.uk

2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff
CF10 4DQ

Telephone +44 (0)29 2046 7200
Facsimile +44 (0)29 2046 7233
Email wales@ofcom.org.uk
www.ofcom.org.uk

LLGC NLW
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

un o lyfrgelloedd mawr y byd
one of the great libraries of the world

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth SY23 3BU

Ffôn/Tel: +44 (0) 1970 632800
Ffacs/Fax: +44 (0) 1970 615709
Ebost: www.llgc.org.uk/holi
Email: www.llgc.org.uk/enquire
www.llgc.org.uk

8 Mawrth 2018

Annwyl Bethan

Gydag ymddiheuriadau i aelodau'r Pwyllgor am yr oedi mewn ymateb, roedd angen i mi drafod ein hymddangosiad o flaen y Pwyllgor gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Atodaf wybodaeth bellach ar waith y Llyfrgell o dan Raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru, ein partneriaeth a Tsiena ac ein gwaith i ddarparu gweithgareddau allgymorth. Gobeithio bydd y wybodaeth bellach o fudd i'r aelodau.

Hoffwn gymryd y cyfle i ymestyn gwahoddiad i'r Pwyllgor cynnal cyfarfod yn y Llyfrgell yn y dyfodol. Byddai hyn yn gyfle i'r aelodau ymweld â'r canolbarth a gweld rhai o'r prosiectau arloesol sydd yn cael eu datblygu yn y Llyfrgell.

Cofion gorau

Rhodri Glyn Thomas

Llywydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif Elusen Gofrestredig 525775
Registered Charity Number 525775

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

## 1. Diweddariad ar Waith y Llyfrgell Genedlaethol i'r Rhaglen Cyfuno

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyflawni gwaith sy'n cefnogi'r Rhaglen Cyfuno ym mhob un o'r Ardaloedd Partneriaeth Cyfuno. Mae Cynllun Strategol y Llyfrgell ar gyfer 2017-2021 – Cof y Genedl: Llunio'r Dyfodol yn nodi fod ffocws y gwaith yn ardaloedd Gwynedd a Sir Gaerfyrddin yn ystod 2017 a 2018, yn ogystal â pharatoi adnoddau dwyieithog ar gyfer y Rhaglen.

Mae ein cynigion i Bartneriaethau Cyfuno yn canolbwyntio ar 4 dangosydd perfformiad sef: F2 Ennill Cymhwyster, F3 Gwirfoddoli fel llwybr i waith, F5 Gwella sgiliau digidol a F6 Gwella agwedd at ddysgu.

Mae'r gweithgareddau canlynol eisoes wedi eu cwblhau neu wedi eu cynllunio ac i'w gweithredu yn y dyfodol agos:

- Cefnogi digido a darparu hyfforddiant i unigolion a grwpiau mewn Ardaloedd Partneriaeth Cyfuno trwy gynllun hyfforddiant Rhaglen Casgliad y Werin.
- Cynnal Canolfannau Treftadaeth Ddigidol mewn perthynas â chymunedau a grwpiau hanes mewn ardaloedd Partneriaeth Cyfuno.
- Darparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau digidol a chynyddu hyder drwy Gasgliad y Werin fel rhan o Uned Achredu Agored Cymru.
- Darparu sesiynau ar ddull cyfeirio Harvard i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n astudio'r Fagloriaeth Gymreig mewn Ardaloedd Partneriaeth Cyfuno.
- Cynnal diwrnod meddiannu (Kids in Museums Takeover Day) gydag ysgol o ardal Partneriaeth Cyfuno Sir Gaerfyrddin.
- Rhedeg prosiect Class Art i ysgol o ardal Partneriaeth Cyfuno Gwynedd
- Cefnogi ysgolion sydd wedi eu hadnabod gan Ardaloedd Cyfuno Gwynedd a Chaerfyrddin trwy gynnal ymweliadau â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Cefnogi ysgolion sydd wedi eu hadnabod gan Ardaloedd Cyfuno Gwynedd a Chaerfyrddin trwy adnoddau digidol sy'n berthnasol i'w hardal leol.

Ceir mwy o wybodaeth am rai o'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at y Rhaglen Cyfuno yn adran 3 isod.

## 2. Partneriaeth y Llyfrgell Genedlaethol gyda Tsieina

### Casgliadau

- Mae gan y Llyfrgell gasgliadau dogfennol helaeth yn ymwneud a'r berthynas rhwng Cymru â Tsieina, gan gynnwys papurau cenhadwyr Cymreig megis Gwenfron Moss a weithiodd yn Tsieina o 1928 i 1964 a Griffith John o Abertawe a fu'n gweithio yn Wuhan, Central China am dros hanner can mlynedd yn ystod yr 20fed ganrif. Ceir hefyd archifau sy'n ymwneud â chymdeithasau Cymreig yn Asia ynghyd a phapurau

busnes, gan gynnwys deunydd yn ymwneud a Dr J R Jones (1887-1976), cynghorydd cyfreithiol i'r Hong Kong Bank (HSBC heddiw) a ffigwr blaenllaw yng nghymdeithas Hong Kong.

- Ym 1983, gadawodd yr Athro David Hawkes, ysgolhaig enwog o Brifysgol Rhydychen, ei lyfrgell gyfan o 4,500 o gyfrolau i'r Llyfrgell. Bu'r Athro Hawkes yn dysgu ym Mhrifysgol Peking yn y 1940au a dechrau'r 1950au, ac mae'n cynnwys eitemau yn amrywio o linachau hynafol y Weriniaeth i flynyddoedd cynnar y Tsieina Newydd o dan Mao Zhedong. Roedd David Hawkes yn ysgolhaig byd-enwog ar lenyddiaeth a hanes Tsieineaidd, bu'n Athro Tsieineaidd ym Mhrifysgol Rhydychen, ac ef oedd cyfieithydd i Saesneg y clasur Tsieineaidd *The Story of the Stone* (石头记). Cafodd y casgliad ei gatalogio yn 1989 gan Dr Wu Jianzhong, cyn-gyfarwyddwr enwog Llyfrgell Shanghai a gwblhaodd ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Partneriaeth**

- Mae'r Llyfrgell wedi datblygu cyfres o bartneriaethau rhyngwladol â llyfrgelloedd ymchwil eraill yn Ewrop, Gogledd America ac Asia. Yn ogystal, mae'r Llyfrgell yn aelod o IFLA ac mae'n cyfrannu at waith rhyngwladol ar gadwraeth ddigidol, astudiaethau Celtaidd a materion proffesiynol megis aelodaeth sylfaen o'r Consortiwm IIIF ar gyfer rheoli delweddau digidol gyda Phrifysgolion Cornell a Stanford.

- Yn ogystal â chydweithredu proffesiynol, mae'r Llyfrgell hefyd wedi cefnogi mentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi cysylltiadau masnachol a diwydiannol trwy hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a hanes Cymru. Dechreuodd y bartneriaeth â llyfrgelloedd Tsieina gyda chytundeb partneriaeth hefo Llyfrgell Chongqing, lle sefydlodd Llywodraeth Cymru swyddfa yn 2006.

- Ymestynnwyd hyn trwy lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth â Llyfrgell Shanghai yn 2015. Mae Llyfrgell Shanghai yn un o'r deg llyfrgell fwyaf yn y byd a nod y bartneriaeth yw hwyluso mynediad at ddeunydd ymchwil a gedwir gan y Llyfrgell Genedlaethol i fyfyrwyr o Tsieina gan weithio gyda Sefydliad Confucius, cyd-guradu arddangosfeydd a digwyddiadau er hyrwyddo cydweithredu a deall a sicrhau bod gan sefydliadau Tseiniaidd perthnasol ddelwedd a modern o Gymru.

- Ym mis Mawrth 2018, bydd Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyd-deithio ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar ei ymweliad hybu masnach i Tsieina. Bydd yn ymweld â Llyfrgell Shanghai ac yn cadarnhau cyfraniad y Llyfrgell Genedlaethol yn rhaglen ryngwladol *'Window on Shanghai'* Shanghai a thrafod cyfranogiad ar y cyd yn y rhaglen ryngwladol *'Open Book'*. Bydd y Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn cymryd rhan yn y 9fed Fforwm Llyfrgell Ryngwladol Shanghai yn ystod 2018.

- Yn ystod yr ymweliad, bydd y Llywydd hefyd yn ymweld â Phrifysgol Hong Kong gyda'r nod o sefydlu cytundeb partneriaeth i hyrwyddo cydweithio a chymorth i

fyfyrwyr Tsieineaidd. Sefydlwyd Prifysgol Hong Kong (HKU) yn 1911 ac mae wedi tyfu i fod yn un o brif sefydliadau ymchwil Asia. Fel sefydliad cyfrwng Saesneg, mae partneriaeth â HKU yn darparu cyfleoedd i bontio'r berthynas rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain a chysylltu â chyrff ymchwil Tsieineaidd eraill.

- Drwy ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau ymchwil Tsieineaidd, bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn anelu at gefnogi cysylltiadau AU ar draws y sector yng Nghymru, yn enwedig trwy ddarparu deunydd ymchwil i fyfyrwyr astudiaethau Tseiniaidd ac i fyfyrwyr o Tsieina sy'n astudio yng Nghymru.

## 3. Prosiectau Allgymorth y Llyfrgell Genedlaethol

Mae'r Llyfrgell wedi, ac yn parhau, i ddatblygu sawl prosiect mewn partneriaeth, a dyma enghreifftiau o'r rhai mwyaf diweddar.

### Prosiect Blaenau Ffestiniog

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn datblygu prosiect Gwirfoddoli Digidol ym Mlaenau Ffestiniog sy'n rhan o Ardal Partneriaeth Cyfuno Gwynedd. Mae casgliad ffotograffig Gwilym Livingstone Evans wedi ei gyhoeddi ar blatfform torfoli torf.llyfrgell.cymru, a bydd yn sail i brosiect rhyng-genhedlaeth a fydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Pobl ifanc yn cael eu hyfforddi fel mentoriaid ar y platfform torfoli newydd;
- Mentoriaid yn hyfforddi grwpiau cymunedol ac oedolion hŷn ar sut i ychwanegu cynnwys i'r platfform torfoli.
- Gwirfoddolwyr hŷn yn ychwanegu data i ffotograffau Gwilym Livingstone Evans;
- Casglu hanes llafar gan drigolion ardal Blaenau Ffestiniog yn seiliedig ar gynnwys y ffotograffau a'u cyhoeddi ar wefan Casgliad y Werin.

### Hedd Wyn

Yn 2017 fel sicrhaodd Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell Genedlaethol grant gan ScottishPower Foundation i ariannu rhan o'i waith Estyn Allan. Pwrpas y grant oedd galluogi'r Llyfrgell i gydweithio ag ysgolion ar brosiect i goffau canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn, gwr a enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw ym mis Medi 1917.

Thema presenoldeb y Llyfrgell yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr 2017 oedd hanes Hedd Wyn. Roedd y presenoldeb yn cynnwys ffacsimili o awdl *Yr Arwr* a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer y digwyddiad ynghyd â replica 3-dimensiwn o Gadair Ddu Hedd Wyn ar fenthyg gan Lywodraeth Cymru / Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Paratowyd arddangosfa ar fywyd Hedd Wyn a darparwyd adnoddau addysgol a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd am ddim i ymwelwyr yr Eisteddfod.

Yn ystod Mehefin 2017 bu i dros 300 o ddisgyblion CA2 o Ysgolion Cynradd yng Ngwynedd gael y cyfle i ymweld ag *Yr Ysgwrn* i ddysgu mwy am Hedd Wyn. Roedd yr ymweliad yn cynnwys:

- sioe Hedd Wyn gan gwmni Theatr Mewn Cymeriad a gomisiynwyd gan y Llyfrgell;
- gweithio gyda chopi ffacsimili o awdl *Yr Arwr*;
- taith o ddatblygiad newydd *Yr Ysgwrn*;
- cyfle i gyfarfod Gerald, nai Hedd Wyn ac i weld y Gadair Ddu enwog;
- gweithdy a gynhaliwyd gan staff Addysg y Llyfrgell Genedlaethol;
- copi am ddim o becyn ar Hedd Wyn a baratowyd gan staff Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.





Canrif union ar ôl seremoni gadeirio Penbedw ym mis Medi 1917, cynhaliwyd cyfres o weithdai gan Wasanaeth Addysg y Llyfrgell Genedlaethol a oedd yn dilyn taith y Gadair Ddu o Benbedw i Drawsfynydd. Bu cyfle i gydweithio gydag ysgolion ar hyd Lannau Mersi ac ar draws Gogledd Cymru.

I ddathlu llwyddiant prosiect Addysg Hedd Wyn bu i ScottishPower Foundation gomisiynu fideo unigryw a dafluniwyd ar flaen adeilad y Llyfrgell Genedlaethol yn ystod yr wythnos cyn Sul y Cofio. Gellir gweld hwn ar-lein yma:
https://www.youtube.com/watch?v=OUmpNsAIBZQ

**Diwrnod Meddiannu (Plant mewn Amgueddfeydd / Kids in Museums)**


Yn ystod 2017 bu i blant Ysgol y Felin, Llanelli o Ardal Partneriaeth Cyfuno Sir Gaerfyrddin gymryd rhan yn niwrnod Meddiannu 2017. Yna yn Ionawr 2018 bu i ysgolion Trimsaran ac Ysgol Mynyddygarreg, sydd hefyd yn Ardal Partneriaeth Cyfuno Sir Gaerfyrddin, gymryd rhan mewn digwyddiad tebyg. Bu'r disgyblion yn gweithio yn yr Ystafelloedd Darllen, digido

eitemau, derbyn a phrosesu derbynion, cynorthwyo staff gyda pharatoi Arddangosfa Canmlwyddiant Kyffin Williams yn ogystal â gweithio gyda staff diogelwch LlGC.




**Celf mewn Ysgolion (Class Art)**

Fel rhan o ddathliadau Kyffin 100 bydd y Llyfrgell yn anfon rhai o ddarluniau gwreiddiol Kyffin i ysgol gynradd ac uwchradd yn Ardal Partneriaeth Cyfuno Gwynedd. Mae'r gwaith hwn yn dilyn llwyddiant prosiect Class Art y llynedd pan anfonwyd gwaith celf gwreiddiol Turner o Gastell Dolbadarn ar ymweliad ag Ysgol Dolbadarn yng Ngwynedd ac Ysgol Coed Efa yng Nghwmbrân.

**Y Fagloriaeth Gymreig**

Mae Gwasanaeth Addysg Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn darparu gweithdai yn Aberystwyth ac ar draws Cymru sy'n cefnogi Cymhwyster y Fagloriaeth Gymreig. Yn 2017

paratowyd canllaw newydd ar y dull cyfeirio Harvard sy'n defnyddio eitemau o gasgliadau LlGC er mwyn dangos sut i gyfeirio at ffynonellau fel rhan o Brosiect Unigol y Fagloriaeth Gymreig. Mae'r canllawiau hyn ar gael yn rhad ac am ddim i bob disgybl y Fagloriaeth Gymreig sy'n ymweld â'r Llyfrgell neu'n cymryd rhan yn y Rhaglen Estyn Allan.

**Gwaith Estyn Allan Thematig gydag Ysgolion**

Yn ogystal â chefnogi prosiectau penodol mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell Genedlaethol yn darparu gweithdai thematig sy'n cefnogi ysgolion yng Nghymru i ddarparu'r cwricwlwm. Gellir gweld enghreifftiau o'r gweithdai ar ein gwefan, ac mae'r rhain yn cael eu darparu trwy ddefnyddio eitemau gwreiddiol yn y Llyfrgell, ac yn defnyddio copïau ffacsimili y tu allan i'r Llyfrgell.

**Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd**

Ers cyhoeddi adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr Athro Donaldson yn Chwefror 2015 mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod yn edrych ar weithredu'r egwyddorion sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Ar y pryd roeddem yn arwain ar brosiect a gyllidwyd gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru i ddatblygu adnoddau addysgu digidol ar y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Bûm yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau fod y deunyddiau hyn yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae pob un o'n gweithdai, yn fewnol ac allanol, wedi eu datblygu i adlewyrchu ethos Adroddiad Donaldson a phedwar pwrpas y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Mae pwyslais ar ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau ieithyddol, rhifyddol a chymwyseddau digidol. Eu bwriad yw annog dysgu sy'n ysgogi ymgysylltu ac yn pwysleisio'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ble'n briodol.

Rydym hefyd yn datblygu adnoddau dysgu digidol mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Ar hyn o bryd, mae'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol yn arwain ar brosiect sy'n canolbwyntio ar Oes y Tywysogion yng Nghymru gyda chefnogaeth gan Cadw a'r Comisiwn Brenhinol.

Mae'r adnoddau yn cynnwys ffynonellau cynradd ac eilradd o Gymru, gan ystyried y cyfnod o safbwyntiau Cymreig, Prydeinig ac Ewropeaidd, yn hytrach na safbwynt Cymru a Lloegr yn unig. Y bwriad yw cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau ieithyddol, rhifyddol yn ogystal â sgiliau digidol. Cyhoeddwyd y ddau adnodd cyntaf yn Medi 2017 ac maent wedi eu gweld dros 1600 yn ystod y 2 fis cyntaf:

https://hwb.gov.wales/resources/resource/f2b3ae86-7de5-493a-8d99-165b7c36525e/en

*Prif Swyddfa:* Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth SY23 2AZ | 01970 624501 | post@cymdeithas.cymru



*Swyddfa'r Gogledd*
10 Stryd y Plas, Caernarfon, LL55 1RR
01286 662908 | gogledd@cymdeithas.cymru

*Swyddfa Dyfed*
Dolwerdd, Llanfihangel-ar-arth, Pencader SA39 9JU
01559 384378 | bethan@cymdeithas.cymru

*Swyddfa'r De*
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF24 3AJ
02920 486469 | de@cymdeithas.cymru

cymdeithas.cymru

cymdeithas yr iaith gymraeg

2ail o Fawrth 2018

Annwyl Bethan Jenkins AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Yn sgil y ddadl a'r cynigion y pasiwyd gan y Cynulliad yr wythnos hon yn ymwneud â darlledu, ysgrifennaf i ofyn yn garedig i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu fynd ati fel mater o frys i gynnal ymchwiliad gyda'r nod o adrodd ar wahanol opsiynau o ran datganoli darlledu a chadarnhau ymarferoldeb sicrhau bod darlledwyr cyhoeddus yn gwbl atebol i Senedd Cymru.

Mae'r bleidlais yr wythnos hon yn newid polisi'r Cynulliad tuag at rymoedd darlledu. Mae gofyn am atebolrwydd llawn i'n Senedd ni yng Nghymru yn rhywbeth mae angen diffinio a mireinio arno.

Ymddengys nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i ymwneud  y gwaith ymchwil o ran sut ac i ba raddau y dylid datganoli darlledu i Gymru, felly gofynnwn i'ch pwyllgor wneud y gwaith er mwyn cyflwyno adroddiad sy'n gosod allan y gwahanol opsiynau i weddill y Senedd a sut y gall "atebolrwydd" fod yn ymarferol.

Fel y gwyddoch, mae'r mater yma yn un sy'n hollol ganolog i hyfywedd democratiaeth Gymreig ynghyd â ffyniant y Gymraeg.

Wrth ystyried ei chylch gwaith, mae'r Cynulliad yn amlwg yn cydnabod y dylai S4C fod yn gwbl atebol i Senedd Cymru. Hynny yw, mae'r Cynulliad wedi cytuno yn unfrydol na ddylai S4C fod unrhyw faint yn fwy atebol i senedd San Steffan nag y mae i Senedd Cymru. Fe allai fod yn sefyllfa anodd i'r sianel fod yr un mor atebol i ddwy senedd wahanol ac mae'n bwysig felly ystyried i ba raddau y dylai S4C barhau i fod yn atebol i San Steffan tra ar yr un pryd yn gwbl atebol i Senedd Cymru.

Wrth i'r sianel fod yn atebol i Senedd Cymru, mae'n rhaid felly ystyried i ba raddau y dylai Senedd neu Lywodraeth Cymru cymryd cyfrifoldeb dros y sianel.

Trwy eu cylch gwaith, mae dyletswydd ar y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 i wasanaethu Cymru gymaint ag unrhyw genedl arall o fewn y DG ac felly mae'n rhesymol tybio, yn ôl dymuniad y Cynulliad, y byddai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hyn hefyd yn gwbl atebol i Senedd Cymru, gan greu'r angen i ystyried ymarferoldeb hyn yn yr un modd â gyda S4C.

Ni fyddai yn hollol resymol ar yr un llaw sicrhau bod darlledwyr teledu yn atebol i Senedd Cymru tra ar y llaw arall yn caniatáu i ddarlledwyr radio a chyfryngau eraill barhau i fod yn atebol i senedd San Steffan yn unig. Mae'n hanfodol felly bod ymchwiliad yn ystyried oblygiadau cynnig y Cynulliad nid yn unig o ran teledu ond ar ddarlledu yn gyffredinol – trwy bob cyfrwng a phlatfform, yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn gywir,

**Aled Powell**
Cadeirydd Grŵp Dyfodol Digidol
aled.powell@cymdeithas.cymru

cymdeithas o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais
dros y gymraeg a chymunedau cymru
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon